

Llinell amser coronafeirws: Ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU Briff Ymchwil

Mae'r llinell amser isod yn tynnu sylw at ddatblygiadau yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws (Covid-19).

System rybuddio dair haen yn Lloegr

12 Hydref 2020

Mae Prif Weinidog y DU, [Boris Johnson](#), wedi cyhoeddi system newydd dair haen o rybuddion lleol COVID-19 yn Lloegr. O 14 Hydref 2020, bydd [Dinas Ranbarth Lerpwl](#) ar lefel rybudd 'uchel iawn' sef y lefel rybudd uchaf.

Cyfyngiadau lleol ym Mangor

9 Hydref 2020

Cyflwyno cyfyngiadau coronafeirws lleol i ymateb i'r [cynnydd mewn achosion ym Mangor](#). 'Mae'r ardal amddiffyn iechyd leol wedi'i thargedu ym Mangor yn cael ei chreu fel ymateb i glwstwr sylweddol o achosion sydd wedi datblygu yn y ddinas - mae'r gyfradd achosion tua 400 achos am bob 100,000 o bobl. Mae'n ymddangos bod cysylltiad agos rhwng yr achosion â phobl ifanc a'r boblogaeth o fyfyrwyr'.

Gweinidog newydd ar gyfer Iechyd Meddwl yng Nghymru

8 Hydref 2020

Mae'r [Prif Weinidog wedi penodi](#) Eluned Morgan fel Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, i gydnabod yr effaith y mae pandemig y coronafeirws yn ei chael ar iechyd meddwl a llesiant pobl. Bydd Eluned Morgan yn gweithio ochr yn ochr â Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn parhau i arwain ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws.

Safleoedd profi galw i mewn ger prifysgolion

8 Hydref 2020



Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd mwy o Safleoedd Profi Lleol galw heibio yn agor y mis hwn ger prifysgolion yn Abertawe, Caerdydd, Bangor ac Aberystwyth. (Agorodd y Safle Profi Lleol cyntaf ym mis Medi ym Mhontypridd ger Prifysgol De Cymru).

Adolygiad o gartrefi gofal

7 Hydref 2020

Cyhoeddi [adolygiad cyflym annibynnol o brofiad gweithredol cartrefi gofal](#) rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at arfer gorau ac ystyriaethau ar gyfer partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol wrth gynllunio ar gyfer y gaeaf. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddiweddariad ar gynnydd](#) ei chynllun gweithredu cartrefi gofal hefyd.

Cynllun ail-greu ar ôl COVID-19

6 Hydref 2020

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, yn cyhoeddi'r adroddiad [Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau](#) sy'n nodi dull Llywodraeth Cymru o ail-greu. Mae'n tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio adnoddau ac ymdrechion arnynt i sicrhau'r buddion gorau posibl i Gymru. Nodir wyth blaenoriaeth allweddol ar gyfer ail-greu a bydd [pecyn o £320 miliwn](#) yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau a chynlluniau ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth dros y 6 mis nesaf.

Newidiadau i'r rheini sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau lleol

2 Hydref 2020

Mae [Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi](#) y bydd oedolion sy'n byw ar eu pen eu hunain, gan gynnwys rhieni sengl, mewn ardaloedd sydd â chyfyngiadau lleol yn cael ffurfio aelwyd estynedig (swigen) dros dro gydag aelwyd arall yn yr un ardal leol o 3 Hydref ymlaen. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai diben y newid yw "helpu i ddiogelu pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain rhag teimlo'n unig ac yn ynysig".

Cyfyngiadau i barhau yng Nghaerffili

2 Hydref 2020

Yn dilyn a [adolygiad o'r rheoliadau](#) sy'n sail i'r cyfyngiadau coronafeirws dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, fod "angen i'r cyfraddau ostwng ymhellach cyn inni lacio'r cyfyngiadau" yng Nghaerffili. Dywedodd Llywodraeth

Cymru y bydd yn defnyddio'r 7 diwrnod nesaf "i gytuno ar lwybr fesul cam o lacio'r cyfyngiadau hyn" gyda Chyngor Sir Caerffili ac awdurdodau lleol eraill.

Cyfyngiadau lleol ar draws gogledd Cymru

29 Medi 2020

Mae'r [Gweinidog Iechyd wedi cyhoeddi](#) y bydd y mesurau sydd ar waith yn y deuddeg ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru yn dod i rym yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam o ddydd Iau 1 Hydref ymlaen.

Blaenoriaethu profion COVID-19

29 Medi 2020

Mae Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi amlinellu'r [blaenoriaethau ar gyfer profion COVID-19](#) yng Nghymru wrth i Lywodraeth Cymru symud i gam newydd yn ei hymateb. Nododd y Gweinidog chwe blaenoriaeth ar gyfer profi. Y cyntaf oedd profion ar gyfer gofal clinigol y GIG (cleifion mewn ysbytai) ac yna'r rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal. Y drydedd blaenoriaeth yw profi staff y GIG gan gynnwys meddygon teulu a fferyllwyr, ac yna profi i reoli achosion. Y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg neu ofal plant yw'r pumed grŵp blaenoriaeth, a'r chweched yw'r holl unigolion sydd â symptomau.

Cyfyngiadau ar gyfer tair sir arall

27 Medi 2020

Y Prif Weinidog, [Mark Drakeford, yn cyhoeddi](#) y bydd yr un mesurau sydd ar waith mewn naw ardal leol arall yng Nghymru yn dod i rym yng Nghastell-nedd Port Talbot, Torfaen a Bro Morgannwg o ddydd Llun 28 Medi.

Galw am 'ddiogelu'r GIG'

27 Medi 2020

Mae [Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl](#) "helpu i ddiogelu gwasanaethau hanfodol ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf drwy ddefnyddio gwasanaethau eraill yn lle Adrannau Achosion Brys pan nad yw'r sefyllfa yn peryglu bywyd nac yn ddifrifol". Dywedodd y Gweinidog Iechyd: "mae angen inni i gyd gofio bod ein staff a'n gwasanaethau GIG o dan bwysau enfawr o hyd."

Cyfyngiadau yng Nghaerdydd, Llanelli ac Abertawe

25 Medi 2020

Y Gweinidog Iechyd, [Vaughan Gething, yn cyhoeddi](#) y daw cyfyngiadau i rym yn Llanelli o 6pm ddydd Sadwrn 26 Medi ac yng Nghaerdydd ac Abertawe o

6pm ddydd Sul 27 Medi. Bydd y mesurau canlynol yn gymwys i'r tri ardal: ni chaniateir i unrhyw un adael na dod i mewn i'w hardal heb esgus rhesymol; ac ni all pobl gwrdd dan do ag unrhyw un nad ydyn nhw'n byw gyda nhw, gan gynnwys eu haelwyd estynedig.

Adolygiad o'r cyfyngiadau yng Nghaerffili

24 Medi 2020

Yn dilyn adolygiad o gyfyngiadau lleol y coronafeirws yng Nghaerffili, mae'r Gweinidog Iechyd, [Vaughan Gething, yn dweud](#) "ar ôl trafod y sefyllfa gyda'r awdurdod lleol, rydym wedi penderfynu cadw'r cyfyngiadau yn eu lle am saith niwrnod arall o leiaf".

Lansio ap COVID-19 y GIG

24 Medi 2020

Gall pobl 16 oed a hŷn ledled Cymru a Lloegr lawrlwytho ap COVID-19 y GIG. Mae [Llywodraeth Cymru yn dweud](#) ei fod yn "rhan ganolog o raglen Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru i adnabod cysylltiadau'r rhai sydd wedi profi'n bositif am y coronafeirws".

Mesurau ar gyfer Cymru gyfan

22 Medi 2020

Y Prif Weinidog, Mark Drakeford, yn mynychu cyfarfod COBR gyda Phrif Weinidog y DU, Prif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon a dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. [Mark Drakeford yn cyhoeddi mesurau newydd i Gymru](#), a fydd yn dod i rym ar yr un pryd â gweddill y DU. Mae hyn yn cynnwys, o 6pm ddydd Iau 24 Medi: bydd busnesau lletygarwch (tafarndai, caffis, bwytai a chasinos) yn cau am 10pm ac yn gallu darparu gwasanaeth bwrdd yn unig; bydd siopau diodydd trwyddedig, fel archfarchnadoedd, yn stopio gwerthu alcohol am 10pm.

Cynnydd yn lefel rhybudd COVID-19

21 Medi 2020

Mae [pedwar Prif Swyddog Meddygol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn argymhell](#) y dylid symud lefel rhybudd COVID-19 i lefel 4. Mae hyn yn golygu bod y feirws mewn cylchrediad cyffredinol a bod trosglwyddiad yn uchel neu'n codi'n gyflymach.

Rhagor o gyfyngiadau coronafeirws lleol

21 Medi 2020

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, [Vaughan Gething, wedi cyhoeddi](#) y bydd cyfyngiadau yn cael eu cyflwyno ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Chasnewydd. O 6pm ar 22 Medi ymlaen bydd y cyfyngiadau a ganlyn ar waith: ni fydd pobl yn cael mynd i mewn i ardal yr awdurdod lleol na gadael yr ardal heb esgus rhesymol (fel teithio am resymau gwaith neu addysg); dim ond yn yr awyr agored y bydd pobl yn cael cwrdd ac ni fyddant yn cael cwrdd ag aelodau o'u haelwyd estynedig dan do; a bydd yn rhaid i bob eiddo trwyddedig gau am 11pm. Bydd y mesurau hyn hefyd yn cael eu hystyngiadau i fwrdeistref Caerffili ar yr un pryd.

Briff gan gynghorwyr Llywodraeth y DU

21 Medi 2020

Rhannodd Prif Swyddog Meddygol Lloegr, Chris Whitty, a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol, Patrick Vallance, [y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19](#). Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod nifer yr achosion yn y DU yn dyblu bob 7 diwrnod ac os bydd hyn yn parhau heb unrhyw gamau gweithredu gallai fod oddeutu 49,000 o achosion newydd y dydd erbyn canol mis Hydref. Dywedodd Chris Whitty ei bod yn 'broblem chwe mis ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hi gyda'n gilydd' ac mai 'problem i bob un ohonom yw hyn'.

Y diweddaraf ynglŷn â phroffion

17 Medi 2020

Mewn datganiad, [rhoddodd y Gweinidog Iechyd y wybodaeth ddiweddaraf](#) ynglŷn ag ymateb Cymru i'r heriau presennol o ran profion coronafeirws.

Cronfa adfer chwaraeon a hamdden

17 Medi 2020

Mae [Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Cymru wedi cyhoeddi](#) 'cronfa adfer chwaraeon a hamdden' gwerth £14 miliwn. Nod y pecyn cyllido yw cefnogi'r sector gyda'r heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig a sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hwy. [Rheolir y gronfa gan Chwaraeon Cymru](#), a bydd yn ychwanegol at y Gronfa Cymorth mewn Argyfwng Chwaraeon a Chronfa Cymru Actif, a weinyddir gan Chwaraeon Cymru hefyd.

Cyfyngiadau Rhondda Cynon Taf

16 Medi 2020

Mae'r Gweinidog Iechyd wedi cyhoeddi y [bydd cyfyngiadau coronafeirws yn cael eu tynhau yn Rhondda Cynon Taf](#) yn dilyn cynnydd mawr mewn achosion yn yr ardal. O 6pm ymlaen ar 17 Medi: ni fydd pobl yn cael dod i mewn i ardal Cyngor Rhondda Cynon Taf, na gadael yr ardal, heb esgus rhesymol; dim ond yn yr awyr agored y bydd pobl yn cael cwrdd; ni chaiff pobl gwrdd ag aelodau o'u haelwyd estynedig o dan do, na ffurfio aelwyd estynedig chwaith; bydd rhaid i bob eiddo trwyddedig gau am 11pm.

Cynllun Diogelu'r Gaeaf

15 Medi 2020

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei [chynllun diogelu'r gaeaf](#) ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi sut y bydd gwasanaethau'n rheoli her ychwanegol y coronafeirws yn ystod y gaeaf sydd i ddod. Gwnaeth y Gweinidog Iechyd [ddatganiad](#) yn y Cyfarfod Llawn hefyd am y cynllun.

Dweud wrth Gasnewydd am fod yn wylidwrus

14 Medi 2020

Mae preswylwyr Casnewydd wedi cael eu [cyngori](#) am yr angen i barhau i gadw pellter cymdeithasol, gan fod cynnydd mewn achosion. Caiff saith o fariau eu rhestru lle bu achosion wedi'u cadarnhau o'r Coronafeirws, ac fe gynghorir pobl i gadw llygad am symptomau COVID-19 od ydyn nhw wedi bod i'r llefydd hyn yn ddiweddar.

Cyfleuster Coronafeirws newydd Caerdydd

14 Medi 2020

[Gweinidog Iechyd Cymru'n cyhoeddi cyllid o £33 miliwn ar gyfer cyfleuster newydd yng Nghaerdydd](#) i reoli unrhyw gynnydd posibl mewn achosion o'r Coronafeirws y gaeaf hwn. "Bydd y cyfleuster newydd, a fydd yn darparu 400 o welyau ychwanegol, yn cael ei adeiladu y drws nesaf i Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd yn dilyn digomisiynu Ysbyty Calon y Ddraig yn Stadiwm Principality."

Gweithio gartref yng Nghymru

13 Medi 2020

Llywodraeth Cymru yn nodi ei [huchelgais yn y tymor hir i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref](#) neu'n agos at eu cartref, gan gynnwys ar ôl i fygythiad y Coronafeirws leihau. "Y bwriad yw datblygu model hybrid ar

gyfer y gweithle, ble y gall staff weithio yn y swyddfa, gartref neu yn lleoliad y ganolfan. Y nod yw y bydd hyn yn galluogi 30% neu ragor o weithwyr i weithio o bell, gan helpu i leihau tagfeydd a llygredd a gwella y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i weithwyr a chyflogwyr”.

Y 'rheol chwe pherson' a gorchudd wyneb gorfodol

11 Medi 2020

Mewn ymateb i'r cynnydd mewn achosion o'r Coronafeirws ledled Cymru, cyhoeddwyd y bydd [y rheolau ar gyfarfod yn gymdeithasol yng Nghymru'n cael eu tynhau](#), ynghyd â gorfod gwisgo gorchudd wyneb. O 14 Medi 2020 ymlaen, chwe pherson ar y mwyaf fydd yn gallu cyfarfod y tu fewn ar unrhyw un adeg (nid yw hynny'n cynnwys plant sy'n iau nag 11 oed). Rhaid iddynt fod o'r un grŵp cartref / swigen unigryw. Nid yw'r rheol chwe pherson yn berthnasol i gyfarfodydd awyr agored yng Nghymru. Gwaherddir mwy na chwe pherson rhag cyfarfod [yn Lloegr](#) hefyd o'r dyddiad hwn ymlaen (y tu mewn neu'r tu allan). Yn [Yr Alban](#), gall uchafswm o chwech o bobl o ddwy aelwyd ddod at ei gilydd y tu mewn neu'r tu allan.

At hynny, o 14 Medi ymlaen, bydd yn ofynnol ar holl drigolion Cymru dros 11 oed (ar wahân i'r rheini sydd wedi'u heithrio) wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus dan do, er enghraifft siopau. Nid yw hyn yn ymestyn i dafarndai a bwytai ar hyn o bryd.

Cymryd camau ym Merthyr a Rhondda Cynon Taf

10 Medi 2020

Cyhoeddi camau pellach o ran iechyd cyhoeddus yn ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful er mwyn cyfyngu ar ymlediad y Coronafeirws. Roedd y camau hynny'n cynnwys y dylai cyflogwyr annog staff i weithio gartref lle byddai'n bosibl gwneud hynny.

Newidiadau pellach i'r rhestr cwarantîn

10 Medi 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, o 12 Medi ymlaen, bod yn rhaid i bobl sy'n cyrraedd Cymru o Hwngari a Reunion hunan-ynysu am bythefnos. Bydd Sweden yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr cwarantîn. Roedd hynny'n dilyn diwygiadau cynharach i'r rheoliadau teithio rhyngwladol o ran Coronafeirws gan ychwanegu ynysoedd Santorini, Serifos a Tinos – sef ynysoedd gwlad Groeg – at y rhestr cwarantîn a fydd yn dod i rym ar 10 Medi 2020.

Camau ymyrryd yn Sir Caerffili

7 Medi 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfyngiadau lleol i reoli'r achosion yn Sir Caerffili. O 6pm ymlaen ar 8 Medi 2020, ni chaniateir i bobl fynd i mewn i ardal Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili, na gadael heb esgus rhesymol; bydd gofyn i bobl dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb mewn siopau; ni chaniateir cyfarfod dan do â phobl eraill nac aelwydydd estynedig.

Nifer yr achosion yn y DU yn codi

6 Medi 2020

Adroddwyd am 2,988 o achosion newydd o'r coronafeirws ar draws y DU ar 6 Medi, sef cynnydd o 1,175 o achosion o'u cymharu â'r diwrnod blaenorol. Roedd 98 o'r achosion hyn yng Nghymru, sef cynnydd o 21 o achosion o'u cymharu â'r diwrnod blaenorol.

Clwstwr Caerffili

4 Medi 2020

Credir bod 'cynnydd sylweddol' yn nifer yr achosion o'r coronafeirws yng Nghaerffili wedi digwydd o ganlyniad i bobl nad ydynt yn cadw pellter cymdeithasol. Mae canolfan brofi dros dro yn cael ei sefydlu yng nghanolfan hamdden Caerffili.

Gwahaniaeth rhwng polisïau'r DU o ran gofynion cwarantîn

3 Medi 2020

Mae'r Gweinidog Iechyd yn cyhoeddi, o 4 Medi 2020, y bydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru o dir mawr Portiwgal, Gibraltar, Gwlad Pwynesia Ffrainc ac ynnysoedd Groeg Mykonos, Zakynthos, Lesvos, Paros ac Antiparos a Crete hunanynysu am 14 diwrnod. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ofynion cwarantîn hefyd ar gyfer Groeg (o 3 Medi) a Portiwgal (o 5 Medi).

Newidiadau cwarantîn

29 Awst 2020

Cyflwyno newidiadau pellach i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'r rheolau cwarantîn. O'r dyddiad hwn bydd yn rhaid i bobl sy'n cyrraedd Cymru o'r Weriniaeth Tsiec, Jamaica a'r Swistir hunanynysu am 14 diwrnod pan fyddant yn dychwelyd. Ni fydd yn rhaid i deithwyr sy'n dychwelyd o Giwba a Singapore wneud hynny mwyach.

Pobl ar wyliau yn cael eu hannog i gwarantinio

28 Awst 2020

Ar ôl i nifer o achosion positif gael eu hadrodd yng Nghymru o ganlyniad i bobl sy'n dychwelyd o'u gwyliau ac nad ydynt yn hunanynysu, mae [Llywodraeth Cymru yn annog](#) pobl i "ddilyn y rheolau cwarantîn".

Ailddechrau ymweliadau dan do â chartrefi gofal

28 Awst 2020

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, [Vaughan Gething, yn cadarnhau](#) y gall ymweliadau dan do â chartrefi gofal ailddechrau o'r dyddiad hwn yn ogystal ag ymweliadau â hosbisau a llety diogel i blant a phobl ifanc. Mae'r Gweinidog yn dweud mai mater i bob sefydliad yw penderfynu pryd yn union y byddant yn ailddechrau'r ymweliadau hyn.

Dirwyon ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth heb drwydded

27 Awst 2020

Mae Llywodraeth Cymru [yn cyhoeddi dirwyon llymach i bobl sy'n trefnu digwyddiadau cerddoriaeth heb drwydded](#) lle mae mwy na 30 o bobl yn bresennol. Mae'n dweud bod hyn yn dod yn dilyn trafodaethau gyda'r heddlu ac yn rhoi pwerau tebyg iddynt i'r rhai sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr.

Gorchuddion wyneb mewn ysgolion

26 Awst 2020

Mae [Llywodraeth Cymru yn argymhell](#) "bod pob aelod o'r cyhoedd sydd dros 11 oed yn gwisgo gorchuddion wyneb dan do lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion a cherbydau cludo dysgwyr i'r ysgol." Bydd yn ofynnol i ysgolion gynnal "asesiadau risg o'u hystadau er mwyn penderfynu p'un a ddylid argymhell bod eu staff a'u pobl ifanc yn gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunol". Mae'r Grŵp Cyngor Technegol wedi cyhoeddi ei [adolygiad o orchuddion wyneb mewn ysgolion](#).

Newidiadau cwarantîn

22 Awst 2020

Mae newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r [rheoliadau teithio rhyngwladol adeg y Coronafeirws](#). O'r dyddiad hwn ymlaen, mae'n rhaid i bobl sy'n cyrraedd y DU o Awstria, Croatia a Trinidad a Tobago hunan-ynysu am 14 diwrnod. Mae'r gofyniad o ran cwarantîn i deithwyr o Bortiwgal yn cael ei ddiddymu.

Cyfarfod gyda theulu a ffrindiau

21 Awst 2020

Yn dilyn yr adolygiad [diweddaraf o'r rheoliadau cyfyngiadau Coronafeirws](#), y Prif Weinidog yn cadarnhau y bydd hyd at bedair aelwyd yn gallu ymuno â'i gilydd yng Nghymru o 22 Awst 2020 ymlaen, i ffurfio aelwyd estynedig, sy'n fwy o faint. Pwysleisiodd y Prif Weinidog nad yw'r amodau eto'n caniatáu llacio'r cyfyngiadau cyffredinol ar bobl sy'n cyfarfod tu mewn. 'Mae hyn yn dal i olygu bod rhaid inni beidio ag ymweld â phobl eraill yn eu cartrefi oni bai ein bod yn rhan o aelwyd estynedig gyda nhw neu'n darparu gofal. Mae hefyd yn golygu na allwn ond ymweld â busnes neu safle y tu mewn, megis tafarn neu fwyty, gydag aelodau o'n haelwyd ein hunain neu'n haelwyd estynedig. Mae'n bosibl, wrth gwrs, cyfarfod â gwahanol bobl yn yr awyr agored gan gofio cadw pellter cymdeithasol'. At hynny, o 22 Awst ymlaen, gellir caniatáu dathliadau cyfyngedig o dan do yn dilyn priodas, partneriaeth sifil, neu angladd, i hyd at 30 o bobl. Nododd y Prif Weinidog hefyd y bydd rhai digwyddiadau awyr agored cyfyngedig ar gyfer hyd at 100 o bobl yn cael eu treialu dros yr wythnosau nesaf.

Adroddiad ar ddeddfwriaeth y Coronafeirws

19 Awst 2020

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei hadroddiad [cyntaf i'r Senedd](#) ar wneud deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, a defnyddio pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Cynllun rheoli'r Coronafeirws

18 Awst 2020

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynllun rheoli'r Coronafeirws [yn cyhoeddi cynllun rheoli'r Coronafeirws sy'n nodi sut y dylai](#) pobl a sefydliadau ledled Cymru weithio gyda'i gilydd i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, wrth i'r hydref a'r gaeaf agosáu.

Buddsoddiad pellach mewn profion

18 Awst 2020

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi [cyllid o £32 miliwn i wella perfformiad profion Coronafeirws](#). Nod y buddsoddiad hwn yw prosesu profion yn gyflymach, a

sicrhau bod systemau profi ac olrhain cysylltiadau yn ddigon cadarn i ddelio â cham nesaf y pandemig.

Cyllid ychwanegol ar gyfer cyngorau

17 Awst 2020

Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi [Pecyn cymorth o £260 miliwn i awdurdodau lleol](#) yng Nghymru. Diben yr arian yw helpu i dalu costau uwch, rheoli pwysau o ran colli incwm, ac ariannu gofynion glanhau ychwanegol ar gyfer ysgolion. 'Gyda phosibilrwydd gwirioneddol y bydd nifer yr achosion yn cynyddu eto yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf, bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi'r hyder i awdurdodau lleol baratoi eu cyllidebau ar gyfer ail don bosibl. Bydd yr arian yn cael ei ddyrannu drwy broses hawlio'.

Diddymu cyfyngiad 'teithio hanfodol' ar drafndiaeth gyhoeddus

17 Awst 2020

[Mae'r cyfyngiad 'teithio hanfodol' ar drafndiaeth gyhoeddus wedi'i ddiddymu](#) yng Nghymru. Cafodd y neges teithio hanfodol yn unig ei chyflwyno er mwyn rhoi blaenoriaeth i weithwyr allweddol, yn ogystal â'r bobl hynny nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o deithio. Mae'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ar drafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn parhau.

Ychwanegu mwy o wledydd at y rhestr cwarantîn

14 Awst 2020

Mae Llywodraeth Cymru [wedi cyflwyno diwygiadau pellach i'r rheoliadau teithio rhyngwladol mewn perthynas â'r coronafeirws](#) i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos hunan-ynysu am 14 diwrnod. Mabwysiadwyd yr un dull o fynd i'r afael â'r sefyllfa ledled y DU.

Mwy o aelodau teulu yn cael cwrdd

14 Awst 2020

[Mae Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi newidiadau](#) i ganiatáu i fwy o deuluoedd gwrdd yng Nghymru. Y bwriad yw, o ddydd Sadwrn 22 Awst ymlaen: y bydd hyd at bedwar cartref yn cael dod ynghyd fel un aelwyd estynedig; caniateir pryd o fwyd yn dilyn priodas, partneriaeth sifil neu angladd i hyd at 30 o bobl dan do ar yr amod y gellir cadw pellter cymdeithasol. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw newidiadau i'r rheolau ynglŷn â phobl

yn cyfarfod dan do ag eraill nad ydynt yn rhan o'u haelwyd neu aelwyd estynedig.

Cynllun diogelu ar gyfer y gaeaf

7 Awst 2020

Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Vaughan Gething](#), yn cyhoeddi y bydd cynllun diogelu ar gyfer y gaeaf yn cael ei ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd y cynllun yn 'amlinellu disgwyliadau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol' ac y bydd 'yn rhoi gwell sicrwydd inni mewn nifer o feysydd hanfodol'. Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi.

Campfeydd a phyllau nofio yn ailagor

7 Awst 2020

[Prif Weinidog Cymru yn cadarnhau](#) y bydd pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd dan do, campfeydd a chanolfannau hamdden yn cael ailagor o ddydd Llun 10 Awst ymlaen ynghyd â mannau chwarae dan do i blant. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn parhau i ystyried i weld a oes modd newid y rheolau i alluogi pobl i gwrdd dan do gyda phobl nad ydynt yn perthyn i'w haelwyd estynedig.

£800 miliwn ar gyfer GIG Cymru

5 Awst 2020

[Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi](#) pecyn sefydlogi o £800 miliwn i helpu GIG Cymru 'i baratoi ar gyfer yr heriau a ragwelir yn ystod y gaeaf'. Mae hyn yn cynnwys 'ymateb i ail don bosibl o'r feirws ochr yn ochr â phwysau arferol y gaeaf'.

Rhagor o gyfyngiadau i gael eu llacio yng Nghymru

31 Gorffennaf 2020

Yn dilyn yr [adolygiad diweddaraf o gyfyngiadau'r coronafeirws](#), mae Llywodraeth Cymru yn datgan ei chynlluniau ar gyfer parhau â'r broses o lacio'r cyfyngiadau symud yng Nghymru dros y tair wythnos nesaf. O 3 Awst ymlaen, caiff tafarndai a bwytai ailagor dan do, yn ogystal ag aleau bowlio, neuaddau bingo ac ystafelloedd ocsiwn. Caiff y cyfyngiadau ar gwrdd yn yr awyr agored eu llacio hefyd o 3 Awst ymlaen, a hynny er mwyn caniatáu i hyd at 30 o bobl gwrdd yn yr awyr agored, ar yr amod eu bod yn cadw pellter cymdeithasol. O 10 Awst ymlaen, os yw'r amodau'n caniatáu, bydd pyllau nofio, sbas, campfeydd, canolfannau hamdden a mannau chwarae dan do i blant yn cael

ailagor. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried a fydd modd newid y rheolau ynglŷn â phobl yn cyfarfod dan do o 17 Awst ymlaen.

Cyfyngiadau yng Ngogledd Lloegr

31 Gorffennaf 2020

Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi [cyfyngiadau lleol a gaiff eu rhoi ar waith mewn ardaloedd yng ngogledd Lloegr](#), a hynny mewn ymateb i gynnydd mewn achosion o'r coronafeirws.

Cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal

30 Gorffennaf 2020

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi ['cynllun gweithredu' ar gyfer cartrefi gofal](#) yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar chwe maes allweddol: atal a rheoli heintiau; cyfarpar diogelu personol; cymorth cyffredinol a chlinigol ar gyfer cartrefi gofal; lles preswylwyr; lles gweithwyr gofal cymdeithasol; a chynaliadwyedd ariannol.

Y cyfnod hunan-ynysu yn cael ei ymestyn

30 Gorffennaf 2020

Mae pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU yn gwneud [datganiad ar y cyd ynghylch ymestyn y cyfnod hunan-ynysu](#) o 7 diwrnod i 10 diwrnod ar gyfer pobl sy'n symptomatig neu sy'n cael canlyniad prawf positif.

Parhau i lacio'r cyfyngiadau yn sgil y Coronafeirws

27 Gorffennaf 2020

Gall salonau harddwch, sinemâu ac amgueddfeydd [ailagor yng Nghymru](#) o heddiw ymlaen. At hynny, gall pobl sy'n ystyried prynu tŷ fynd i weld eiddo, cyn belled â'i fod yn wag. Daw rheolau newydd i rym, sy'n ei gwneud hi'n orfodol gwisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys tacsis.

Ailgyflwyno cwarantin i deithwyr o Sbaen

25 Gorffennaf 2020

Gweinidogion o bedair gwlad y DU yn cytuno i [ailgyflwyno mesurau cwarantin ar gyfer pobl sy'n cyrraedd o Sbaen](#), mewn ymateb i fwy o achosion o'r Coronafeirws mewn rhannau o'r wlad honno. O 26 Gorffennaf 2020, bydd angen i unrhyw un sy'n cyrraedd y DU o Sbaen (gan gynnwys ei hynysodded) hunanynysu am 14 diwrnod. Mae'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws,

Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 yn rhoi hyn ar waith yng Nghymru.

Gwersyllfeydd a gwestai yn ailagor

25 Gorffennaf 2020

Mae llety i dwristiaid gyda chyfleusterau a rennir, fel safleoedd gwersylla a phob gwesty, yn cael ailagor yng Nghymru. Gall atyniadau tanddaearol ailagor o heddiw ymlaen.

Cyllid i gefnogi prifysgolion a cholegau

22 Gorffennaf 2020

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi y bydd £50 miliwn yn ychwanegol o gyllid ar gyfer prifysgolion a cholegau - 'Mae'r gefnogaeth yn rhan o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi myfyrwyr a phrif sefydliadau addysg Cymru ac i ddarparu'r sgiliau a'r dysgu fel ymateb i effaith economaidd y coronafeirws'. Bydd £27 miliwn yn cael ei ddarparu i sefydliadau addysg uwch gyda £23 miliwn i gefnogi myfyrwyr mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth.

Ailagor meysydd chwarae a ffeiriau

20 Gorffennaf 2020

O'r dyddiad hwn, bydd meysydd chwarae a champfeydd awyr agored yn gallu ailagor yng Nghymru, yn ogystal â ffeiriau (dan do ac awyr agored).

Adroddiad ar farwolaethau cysylltiedig â'r coronafeirws yng Nghymru

17 Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd adolygiad cyntaf ar farwolaethau cysylltiedig â'r coronafeirws yng Nghymru. Canfu adroddiad y Grŵp Cyngor Technegol fod y coronafeirws yn ffactor yn 24.1 y cant o'r holl farwolaethau yng Nghymru rhwng 1 Mawrth a 31 Mai. Yn Lloegr, y gyfran gyfatebol o farwolaethau cysylltiedig â'r coronafeirws oedd 42 y cant. Yng Nghymru, roedd cyfraddau marwolaeth cysylltiedig â'r coronafeirws ar eu huchaf yn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, lle roedd y cyfraddau marwolaeth ar eu huchaf ymhlith pobl hŷn, pobl o gymunedau BAME, a phobl o gymunedau difreintiedig. Mae'r cyfraddau marwolaeth yn gyson yn uwch i ddynion ym mhob grŵp ethnig. Yn ôl yr adroddiad, mae'n debygol mai'r ffactorau pwysicaf ar gyfer lleihau marwolaethau mewn tonnau coronafeirws yn y dyfodol yw: adnabod yn gynnar bod yr haint yn ailgodi yn y gymuned; a chanolbwyntio'n barhaus ar adnabod ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Y wybodaeth ddiweddaraf am warchod yng Nghymru

16 Gorffennaf 2020

Mae [Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi cadarnhau](#) na fydd angen i bobl sy'n gwarchod eu hunain wneud hynny yng Nghymru ar ôl 16 Awst.

Strategaeth brofi newydd

15 Gorffennaf 2020

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ei [strategaeth profi coronafeirws](#) newydd i Gymru, lle mae'n nodi ei blaenoriaethau profi ar gyfer y cyfnod nesaf. 'Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd y drefn brofi yn gweithio law yn llaw â llacio'r cyfyngiadau er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cadw nifer yr achosion dyddiol yn isel, ond mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn parhau i feithrin capasiti ar gyfer y posibilrwydd o ail don hyd nes y bydd brechlyn effeithiol sydd ag effeithlonrwydd amddiffynnol hirdymor ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n eang'.

Gorchuddion wyneb i fod yn orfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus

13 Gorffennaf 2020

[Cyhoeddodd y Prif Weinidog](#) y bydd gwisgo gorchuddion wyneb tair haen yn orfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, o 27 Gorffennaf 2020. Dywedodd hefyd y gall rhai busnesau ofyn i bobl wisgo gorchudd wyneb cyn mynd i mewn i'w safleoedd.

Llacio'r cyfyngiadau symud ymhellach yng Nghymru

10 Gorffennaf 2020

Yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'r rheoliadau cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru, mae'r [Prif Weinidog yn nodi cynlluniau](#) i lacio'r cyfyngiadau symud ymhellach. Cafodd [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Cymru\) 2020](#) eu dirymu a'u disodli gan [Reoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 2\) \(Cymru\) 2020](#). O 11 Gorffennaf 2020, gall llety gwyliau hunangynhwysol heb gyfleusterau a rennir ailagor. O 13 Gorffennaf 2020, gall nifer o wasanaethau/busnesau ailagor os ydyn nhw'n gallu gwneud hynny'n ddiogel, gan gynnwys siopau trin gwallt, ardaloedd awyr agored tafarndai a bwytai, sinemâu awyr agored, y rhan fwyaf o atyniadau ymwelwyr dan do, a mannau addoli. Cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd y bydd cyfyngiadau'n cael eu llacio mewn meysydd eraill trwy gydol mis Gorffennaf, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â meysydd chwarae a champfeydd awyr agored (o 20 Gorffennaf 2020), llety arall i dwristiaid (o 25 Gorffennaf 2020),

gwasanaethau lle mae angen dod i 'gysylltiad agos' fel salonau harddwch, sinemâu ac amgueddfeydd o dan do, ac ailagor y farchnad dai yn llawn (o 27 Gorffennaf 2020).

Cynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol yng Nghymru

9 Gorffennaf 2020

[Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi](#) cynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol yng Nghymru o 1 Medi 2020. Bydd ysgolion yn dychwelyd i'w capasiti llawn, gydag elfen gyfyngedig yn unig o gadw pellter cymdeithasol oddi mewn i grwpiau cyswllt. Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog gyllid o £29 miliwn a fydd yn 'recriwtio, yn adfer ac yn parhau i godi safonau' mewn ysgolion yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [cyngor y Grŵp Cyngchori Technegol](#) a oedd yn argymhell dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Llacio'r cyfyngiadau cwarantîn yng Nghymru

9 Gorffennaf 2020

[Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno](#) i ddiwygio *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020* i eithrio'r rheini sy'n teithio o restr o wledydd rhag gorfod dilyn y gofynion ynysu. Daw'r [rheoliadau diwygiedig](#) i rym ar 10 Gorffennaf.

Codwyd cyfyngiadau teithio a chaniateir aelwydydd 'estynedig'

6 Gorffennaf 2020

[Codwyd gofyniad i 'aros yn lleol!](#) heddiw, sy'n golygu bod pobl yn cael teithio yng Nghymru ac i Gymru. 'Bydd atyniadau ymwelwyr yn yr awyr agored hefyd yn gallu agor a bydd hefyd yn gam tuag at ail-agor y sector twristiaeth o ddydd Llun Gorffennaf 13 ymlaen, os yw nifer yr achosion o'r coronafeirws yn parhau i ostwng'. Hefyd o'r dyddiad hwn, bydd pobl o ddwy aelwyd wahanol yn gallu ymuno i ffurfio un aelwyd estynedig rhyngddyn nhw yn unig. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y bydd mesurau'r cyfyngiadau symud yn cael eu llacio mewn [datganiad ar 3 Gorffennaf 2020](#).

Mae tafarndai a siopau trin gwallt yn Lloegr yn ailagor

4 Gorffennaf 2020

Mae tafarndai, bwytai a siopau gwallt yn ailagor yn Lloegr. Ymhlith y newidiadau eraill o'r dyddiad hwn yn Lloegr, bydd dwy aelwyd yn gallu cwrdd unrhyw le, gan gadw pellter cymdeithasol, bydd safleoedd llety gwyliau, rhai

cyfleusterau hamdden ac atyniadau i dwristiaid yn ailagor, yn ogystal â llyfrgelloedd, clybiau cymdeithasol, addoldai a chanolfannau cymunedol. Cyhoeddwyd y newidiadau hyn gan gan Brif Weinidog y DU ar 23 Mehefin 2020.

Llacio cyfyngiadau teithio rhyngwladol yn Lloegr

3 Gorffennaf 2020

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd pobl, o 10 Gorffennaf 2020, yn gallu teithio i wledydd y nodir eu bod yn 'risg is' heb orfod hunanynysu ar ôl dychwelyd i Loegr. Yn ôl y datganiad, bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn nodi eu dulliau eu hunain ar gyfer esemptiadau [o hunanynysu], ac felly dylai teithwyr sy'n dychwelyd i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sicrhau eu bod yn dilyn y deddfau a'r canllawiau sy'n berthnasol yno.

Camau i'r sector lletygarwch a thwristiaeth ailagor yn raddol

2 Gorffennaf 2020

Mae Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol Cymru wedi nodi amserlen i'r sector twristiaeth ailagor yn raddol. Bydd bariau, bwytai a chaffis gyda manau awyr agored yn paratoi i ailagor yn yr awyr agored o 13 Gorffennaf 2020. 'Gwneir penderfyniad terfynol ynghylch ailagor yn yr adolygiad nesaf o'r Rheoliadau Coronafeirws ar 9 Gorffennaf, a bydd yn dibynnu ar a yw nifer yr achosion o'r coronafeirws yn parhau i ostwng. Gwneir penderfyniadau ynghylch ailagor y sector o dan do maes o law, a bydd llawer yn dibynnu ar lwyddiant y cam cyntaf o agor y sector yn yr awyr agored.' Hefyd, yn ddarostyngedig i'r adolygiad o reoliadau coronafeirws ar 9 Gorffennaf, mae'r dyddiad ar gyfer derbyn archebion llety gwyliau hunangynhwysol yn cael ei ddwyn ymlaen i 11 Gorffennaf o 13 Gorffennaf, i gyd-fynd â'r patrwm o aros o ddydd Sadwrn i ddydd Sadwrn.

Mae'r cwarantîn i deithwyr rhyngwladol yn aros yng Nghymru

30 Mehefin 2020

Cafwyd datganiad gan y Prif Weinidog yn dilyn adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020: bydd y gofyniad i bobl sy'n cyrraedd neu sy'n dychwelyd o dramor i hunanynysu am 14 diwrnod aros mewn grym yng Nghymru. 'Gellir diwygio'r Rheoliadau maes o law gan ddibynnu ar ganlyniad y trafodaethau sy'n parhau â gweinyddiaethau eraill y

DU a chan ystyried yn llawn y cyngor meddygol a gwyddonol a fyddai'n sail ar gyfer unrhyw newidiadau a allai gael eu cynnig'.

Ysgolion yng Nghymru yn ailagor

29 Mehefin 2020

Mae plant yn dychwelyd i'r ysgol yng Nghymru mewn dull graddol. Bydd grwpiau blwyddyn yn cael eu rhannu'n garfannau gydag amseroedd cychwyn ac egwyliau gwahanol. Disgwylir, ar y mwyaf, y bydd traean o'r disgyblion yn bresennol ar unrhyw un adeg. Mae [canllawiau wedi'u diweddarau i ysgolion a chwestiynau cyffredin](#) wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Achosion mewn safleoedd prosesu cig a bwyd

24 Mehefin 2020

[Y Gweinidog Iechyd yn gwneud datganiad](#) ar achosion o'r coronafeirws sydd wedi'u canfod mewn dau safle prosesu cig a bwyd yng Nghymru, yn ffatri 2 Sisters yn Llangefni, Ynys Môn a ffatri Rowan Foods yn Wrecsam. Cyhoeddwyd [canllawiau newydd ar gyfer safleoedd prosesu cig a chynhyrchu bwyd](#) ar atal a rheoli achosion o'r coronafeirws ar ôl hynny, ar 26 Mehefin 2020.

Adroddiad ar ganlyniadau pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig o ran y coronafeirws

22 Mehefin 2020

Cyhoeddwyd [adroddiad ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau negyddol Covid-19 i unigolion duon a rhai o gefndiroedd ethnig](#). Mewn [datganiad](#) ar 25 Mehefin 2020, dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r adroddiad ac yn darparu ymateb ffurfiol i argymhellion yr adroddiad yn fuan.

Adolygiad o gyfyngiadau'r coronafeirws

19 Mehefin 2020

Mae'r Prif Weinidog yn cyhoeddi newidiadau i gyfyngiadau'r coronafeirws yn dilyn y [pedwerydd adolygiad](#) o'r rheoliadau. O 22 Mehefin, caiff yr holl fusnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol, cyfleusterau gofal plant a'r farchnad dai ailagor; a chaniateir gweddïau preifat mewn mannau addoli. Hefyd, ailadroddodd y Prif Weinidog y bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgolion ar 29 Mehefin.

Bydd y gofyniad i bobl aros yn lleol ac o fewn tua phum milltir o'u cartrefi yn parhau i fod mewn grym am ddwy wythnos arall. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Weinidog y caniateir teithio y tu allan i ardal leol rhywun ar seiliau tosturiol.

Mae hyn yn cynnwys “i ymweld â pherthynas neu ffrind agos sydd angen cymorth neu i ymweld â rhywun yn yr awyr agored mewn cartref gofal”. Mae'r Prif Weinidog yn ystyried codi'r cyfyngiad hwn ar 6 Gorffennaf.

Defnyddio decsamethason i drin COVID-19

17 Mehefin 2020

Mae'r Gweinidog Iechyd yn cyhoeddi bod y canllawiau ar gyfer ysbytai sy'n trin COVID-19 wedi'u diweddarau i gynnwys defnyddio decsamethason. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad gan Brifysgol Rhydychen bod decsamethason yn lleihau marwolaethau'n sylweddol ymhlith cleifion y mae arnynt angen ocsigen neu gymorth anadlu.

Gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell Nghymru

9 Mehefin 2020

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell “y dylid gwisgo gorchuddion wyneb tair haen mewn sefyllfaoedd lle gall fod yn anoddach cadw pellter cymdeithasol... fel ar gludiant cyhoeddus”. Fodd bynnag, ni fydd yn orfodol i bobl wisgo gorchuddion wyneb. Eglurodd Llywodraeth Cymru yn glir hefyd nad yw gwisgo gorchudd wyneb yn dileu'r angen i gadw pellter cymdeithasol a golchi'ch dwylo yn rheolaidd. Ailbwysleisiodd hefyd fod yn rhaid i unrhyw un sydd â symptomau'r coronafeirws “hunanyysu am o leiaf saith diwrnod a chael prawf cyn gynted â phosibl”.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i wneud gorchudd wyneb 3 haen a chwestiynau cyffredin.

Cwarantîn i'r rhai sy'n cyrraedd y DU mewn grym yn awr

8 Mehefin 2020

Daw'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i rym – rhaid i breswylwyr ac ymwelwyr sy'n dod i'r wlad o dramor hunanyysu am 14 diwrnod rhag i'r coronafeirws ymledu ymhellach. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa gyffredin ym mhedair gwlad y DU. Mae nifer o eithriadau i'r rheolau newydd.

Cyhoeddi y bydd disgyblion Cymru yn dychwelyd i'r ysgol

3 Mehefin 2020

Cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y bydd ysgolion yn ailagor i bob grŵp blwyddyn ar 29 Mehefin 2020. Bydd y tymor yn para wythnos ychwanegol tan 27 Gorffennaf 2020. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen yn egluro'i dealltwriaeth ddiweddaraf o'r coronafeirws mewn perthynas â

phlant ac addysg. Mae ysgolion Lloegr wedi bod ar agor ers 1 Mehefin 2020. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni fydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol cyn Awst 2020 pan fydd y flwyddyn academaidd yn dechrau yno.

Olrhain cysylltiadau yn dechrau yng Nghymru

1 Mehefin 2020

Wrth i'r system olrhain cysylltiadau gael ei chyflwyno, bydd aelod o'r tîm olrhain cysylltiadau'n cysylltu ag unrhyw un sy'n cael canlyniad prawf coronafeirws positif ac yn gofyn am fanylion pawb maent wedi dod i gysylltiad agos â hwy. Bydd y tîm yn cysylltu â'r holl gysylltiadau hyn a gofynnir iddynt hunanynysu am 14 diwrnod.

Mae'r Gweinidog Iechyd yn dweud o 8 Mehefin y bydd olrhain cysylltiadau'n cael ei gefnogi gan system ar-lein newydd a fydd yn rhoi opsiwn i bobl i ddarparu manylion am eu cysylltiadau ar-lein.

Newidiadau ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain

1 Mehefin 2020

Mae Gweinidog Iechyd Cymru yn cyhoeddi dau newid i bobl sy'n gwarchod eu hunain o heddiw, ond fe'u cynghorir i wneud hynny ar adegau llai prysur i leihau'r risg o ddod i gysylltiad ag eraill. Yn gyntaf, gallant wneud ymarfer corff yn yr awyr agored nifer diderfyn o weithiau'r dydd. Yn ail, gallant gyfarfod ag aelwyd arall yn yr awyr agored, ar yr un telerau â phawb arall yng Nghymru.

Dywedodd y Gweinidog y dylent barhau i ddilyn y cyngor arall ar warchod, fel y nodwyd yn flaenorol, a bydd pawb sy'n gwarchod yn "cael llythyr oddi wrth Brif Swyddog Meddygol Cymru cyn 15 Mehefin yn nodi'r camau nesaf".

Aros yn lleol

29 Mai 2020

Yng Nghymru, yn dilyn yr adolygiad tair wythnos o'r rheoliadau, mae Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi bod y neges i 'aros gartref' yn newid i 'aros yn lleol'. O 1 Mehefin, gall **dwyl aelwyd gwrrd yn yr awyr agored** a dylid parhau i ddilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol ac arferion hylendid da.

Pwysleisiwyd y dylai pobl **barhau i aros yn lleol gan ddefnyddio "pum milltir fel canllaw"** ond bod "hyblygrwydd i hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn". Nododd Prif Weinidog Cymru hefyd i **"fusnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol i ddefnyddio'r tair wythnos nesaf i ddechrau paratoi i ailagor"**.

O 1 Mehefin yn Lloegr, gall grwpiau o 6 o bobl gwrdd yn yr awyr agored. Ers **13 Mai**, mae pobl yn Lloegr wedi gallu teithio pellteroedd diderfyn.

Cyhoeddi mesurau ffiniau'r DU

22 Mai 2020

Mae **Ysgrifennydd Cartref y DU** wedi cyhoeddi mesurau iechyd cyhoeddus newydd ar gyfer pob un sy'n cyrraedd y DU, er mwyn helpu i warchod rhag ail don o'r coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys 14 diwrnod o hunanynysu i unrhyw un sy'n dod i mewn i'r DU, gydag ambell eithriad prin.

Llywodraeth Cymru wedi'i chyfeirio i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

21 Mai 2020

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn galw** am ymchwiliad i Lywodraeth Cymru gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol dros bryderon bod hawliau dynol pobl hŷn wedi'u torri mewn cartrefi gofal. Mae gan y **Comisiynydd bryderon** nad yw hawliau pobl hŷn wedi'u diogelu ddigon yn y lleoliadau hyn ac ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach. Ymatebodd y Comisiynydd i ddweud ei fod yn 'parhau i fod â chryn bryder am y posibilrwydd y torrwyd hawliau dynol pobl hŷn yn ystod y pandemig'. **Dyweddodd y Comisiynydd** ei fod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd ac yn "ystyried defnyddio ei holl bwerau i warchod hawliau pobl hŷn".

Cyflwyno prawf coronafeirws gartref

18 Mai 2020

O'r dyddiad hwn ymlaen, dylai pobl yng Nghymru sydd â symptomau'r coronafeirws allu **gofyn am gael prawf coronafeirws gartref** trwy wasanaeth archebu ar-lein. Mae'r prawf yn rhan o system newydd ledled y DU ar gyfer archebu pecynnau i brofi am y coronafeirws gartref. At hynny, gall gweithwyr hanfodol yng Nghymru ofyn am becynnau profi gartref trwy'r gwasanaeth ar-lein, a "rhoddir blaenoriaeth i'r gweithwyr hynny dros aelodau o'r cyhoedd yn ôl y capasiti". Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau ar sut i ddefnyddio'r pecyn profi gartref**.

Diweddariad o ran symptomau

18 Mai 2020

Mae pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU wedi cyhoeddi **diweddariad o ran symptomau'r** coronafeirws i gynnwys colli arogl neu flas. O'r dyddiad hwn ymlaen, dylai pob unigolyn hunanynysu os yw'n datblygu o leiaf un o'r symptomau hyn: peswch parhaus o'r newydd; twymyn; colli arogl neu flas (anosmia).

Profi ar gyfer pob cartref gofal

16 Mai 2020

Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd, **yn cyhoeddi** y gall holl breswylwyr a staff cartrefi gofal gael mynediad at brofion ar borth Llywodraeth y DU.

Fframwaith ar gyfer addysg a gofal plant

15 Mai 2020

Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, **yn cyhoeddi fframwaith** yn amlinellu'r egwyddorion a'r meddylfryd cyfredol ynghylch y camau nesaf ar gyfer addysg a gofal plant yng Nghymru.

Canllaw golau traffig ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud

15 Mai 2020

Prif Weinidog Cymru yn amlinellu'r **map o'r ffordd ymlaen ar gyfer llacio'r cyfyngiadau** yng Nghymru. Mae'n cynnwys naw maes gyda phedwar cam ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud, o goch i oren i wyrdd. Dywed y ddogfen fod y camau hyn yn "amlinellu camau bras" ac na fydd Cymru'n "symud popeth ar yr un pryd o'r naill gam i'r llall". Mae'n bosibl, felly, bod wrth y cam coch mewn un maes, a cham gwyrdd mewn maes arall.

Profi, Orlhain, Diogelu

13 Mai 2020

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei **strategaeth profi** er mwyn "gwella gwyliadwriaeth iechyd" ac "olrhain cysylltiadau yn effeithiol ac yn helaeth". Dywed fod profi, hyd yn hyn, wedi canolbwyntio ar bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal a gweithwyr allweddol symptomatig a bydd y cam nesaf yn golygu profi unrhyw un yn y gymuned â symptomau.

Dim rhaid gorchuddio'r wyneb/ neu Nid yw gorchuddion wyneb yn orfodol

12 Mai 2020

Prif Swyddog Meddygol Cymru **yn dweud mewn datganiad** nad yw'n "argymhell gorfodi pob un i wisgo gorchudd wyneb bob tro y byddant yn gadael eu cartref – dylai hyn fod yn fater o ddewis personol."

Prif Weinidog yn dweud wrth Loegr am aros yn wylidwrus

10 Mai 2020

Mewn anerchiad teledu, mae Prif Weinidog y DU wedi amlinellu newidiadau i'r cyfyngiadau symud yn Lloegr ac wedi hyrwyddo neges newydd i 'aros yn wylidwrus'. Caiff mwy o fanylion eu cyflwyno i Senedd y DU ar 11 Mai 2020. Mae'r neges 'aros gartref' yn parhau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddi cyngor gwyddonol

8 Mai 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r modelu diweddaraf gan ei Chell Cyngori Technegol (TAC). Caiff cyngor TAC, yn ogystal â chyngor Grŵp Cyngori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar gyfer Argyfyngau (SAGE), ei ddefnyddio i lywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws.

Ymestyn cyfnod y cyfyngiadau symud yng Nghymru

8 Mai 2020

Mae cyfnod y cyfyngiadau symud yn cael ei ymestyn am dair wythnos arall yng Nghymru gyda rhai mân newidiadau: gall pobl fynd allan i wneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd ond rhaid iddynt aros yn lleol; gall canolfannau garddio agor cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r gofynion cadw pellter corfforol; gall awdurdodau lleol ddechrau cynllunio ar gyfer ailagor llyfrgelloedd a chanolfannau ailgylchu trefol yn ddiogel. Diwygiwyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ar 11 Mai i adlewyrchu'r newid hwn.

Cynllun 'profi, monitro ac olrhain'

5 Mai 2020

Y Gweinidog Iechyd yn amlinellu Cynllun Ymateb Llywodraeth Cymru er mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd. Bydd y Cynllun 'yn nodi sut y bydd rhaglen effeithiol o brofi, monitro ac olrhain yn allweddol er mwyn rheoli trosglwyddiad y feirws'.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn holi'r Gweinidog Iechyd

5 Mai 2020

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog yn ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar effaith pandemig y coronafeirws ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant, ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cymorth i brifysgolion a myfyrwyr

4 Mai 2020

Y Gweinidog Addysg yn cyhoeddi [datganiad polisi addysg uwch](#) yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prifysgolion a myfyrwyr i ymdopi ag effaith y coronafeirws.

Taliad o £500 i weithwyr gofal

1 Mai 2020

Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi [taliad ychwanegol o £500 i staff gofal cymdeithasol](#). "Mae'r taliad hwn yn gydnabyddiaeth bellach o weithlu sydd yn aml yn cael ei anwybyddu, a ddim yn cael digon o werthfawrogiad. Bydd y taliad ar gael i tua 64,600 o weithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal yn y cartref ar draws Cymru."

Heibio'r brig?

30 Ebrill 2020

Dywed [Prif Weinidog y DU](#) yn y gynhadledd i'r wasg ddyddiol ein bod wedi mynd heibio i frig y clefyd hwn.

Y Gweinidog Iechyd yn ymddangos gerbron pwyllgor

30 Ebrill 2020

Bu'r [Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon](#) yn craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws. Mae'r Gweinidog Iechyd yn ateb cwestiynau ynghylch [cyfarpar diogelu personol](#) (PPE), profion a 'strategaeth i lacio'r cyfyngiadau' presennol o ran y coronafeirws.

Y wybodaeth ddiweddaraf am beiriannau anadlu

29 Ebrill 2020

Gweinidog Iechyd Cymru yn darparu'r [diweddaraf am gapasiti gofal critigol a chymorth anadlu](#). O'r 1,035 o beiriannau anadlu ychwanegol sy'n cael eu caffael gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a thrwy drefniadau'r DU (yn unol â'i [ddatganiad](#) ar 6 Ebrill), cafwyd 353). Dywedodd y Gweinidog "Mae'r

broses o gyflenwi'r peiriannau anadlu sydd wedi'u caffael drwy Gydwasanaethau GIG Cymru a threfniadau yn y DU wedi bod yn broses raddol dros gyfnod o 13 o wythnosau, ar sail yr amcanestyniad gwreiddiol y byddai nifer yr achosion ar ei uchaf ym mis Mehefin/Gorffennaf. Tra bo achosion o COVID-19 yng Nghymru nid oes prinder wedi bod o safbwynt peiriannau anadlu o fewn y GIG yng Nghymru".

Rhagor o brofion drwy ffenest y car

28 Ebrill 2020

Bydd dwy ganolfan brofi newydd yn agor a bydd gwasanaeth archebu ar-lein yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Dywed [datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru](#) y bydd y ganolfan brofi yn Llandudno yn agor ar 29 Ebrill, a chanolfan Caerfyrddin yn dechrau profi gweithwyr allweddol ar 30 Ebrill 2020.

Adolygu'r data marwolaethau

28 Ebrill 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi [adolygu'r dull ar gyfer adrodd ar farwolaethau COVID-19](#) yng Nghymru. Cynhaliwyd yr adolygiad ar ôl i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr dangofnodi nifer sylweddol o farwolaethau. Nodwyd problemau hefyd gyda data a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

Pwyllgor y Cynulliad yn craffu ar y Gweinidog Addysg

28 Ebrill 2020

Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg [yn holi'r Gweinidog](#) am effaith y coronafeirws ar addysg cyn-16 oed, ac addysg ôl-16. Yn gynharach, cyhoeddodd y Gweinidog [ddatganiad](#) a oedd yn disgrifio dull graddol o ailagor ysgolion - "ni fydd ysgolion yn dychwelyd ar unwaith i weithredu i'w capasiti llawn." Pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gam i ailagor ysgolion ar fin digwydd.

Marwolaeth mewn swydd

27 Ebrill 2020

Gweinidog Iechyd Cymru [yn sefydlu Cynllun Marwolaeth mewn Gwasanaeth COVID-19](#) ar gyfer gweithwyr rheng flaen y GIG a gofal cymdeithasol. O dan y Cynllun, bydd buddiolwyr cymwys yn cael swm unwaith ac am byth o £60,000, waeth beth yw cyflogau gweithwyr unigol. Bydd terfyn amser ar y Cynllun, gan y bydd yn darparu sicrwydd ar gyfer cyfnod y pandemig a bydd yn gymwys yn ôl-weithredol o 25 Mawrth 2020.

Fframwaith y strategaeth i lacio'r cyfyngiadau

24 Ebrill 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei 'fframwaith ar gyfer adferiad ar ôl pandemig y coronafeirws. "Cyflwynwyd y cyfyngiadau ar symud," meddai'r Prif Weinidog, "yn yr un ffordd ac ar yr un pryd ledled y Deyrnas Unedig, a'n dewis ni fel llywodraeth fyddai bod pob un o'r pedair gwlad yn mynd ati i godi'r cyfyngiadau yn yr un ffordd. Serch hynny, rydym wedi dweud yn gyson y byddwn yn gwneud y penderfyniadau cywir er lles pobl Cymru". Bydd Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, yn cydlynu'r paratoadau ar gyfer adferiad.

Diwygio'r cyfyngiadau aros gartref

24 Ebrill 2020

Mae'r rheoliadau aros gartref wedi'u hadolygu yng Nghymru i egluro na all pobl sy'n rhoi esgus rhesymol dros adael eu cartref (fel siopa am eitemau hanfodol, gofal iechyd neu waith) aros allan i wneud pethau eraill. Mae trefniadau newydd hefyd yn caniatáu i bobl sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol adael eu cartref i wneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd. Nod penodol y trefniadau hyn yw helpu teuluoedd sydd â phlant ag awtistiaeth ac anableddau dysgu.

Cymorth i hosbisau

19 Ebrill 2020

Gweinidog Iechyd Cymru yn cyhoeddi pecyn cymorth ychwanegol o £6.3 miliwn dros dri mis i hosbisau.

Adolygiad profion

18 Ebrill 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adolygiad o'i gweithdrefn ar gyfer profi am y coronafeirws. Mae'r adolygiad yn disgrifio ystod o achosion o oedi a phroblemau â'r gadwyn gyflenwi, ac mae'n cadarnhau "na fyddwn yn cyrraedd 5000 o brofion erbyn trydedd wythnos mis Ebrill". Mae'n cynnwys ymrwymiad i ddarparu diweddariadau wythnosol yn nodi'r cynnydd disgwylidig a'r cynnydd gwirioneddol o ran capasiti profi.

Mesurau aros gartref yn parhau

16 Ebrill 2020

Yn dilyn [sesiwn friffio'r cyfryngau gan Lywodraeth y DU](#), dywedodd [Prif Weinidog Cymru fod pedair gwlad](#) y DU wedi cytuno mewn cyfarfod COBR i barhau â'r mesurau cyfredol i aros gartref am dair wythnos yn rhagor. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddatganiad ynghylch adolygu'r rheoliadau](#) sy'n sail i'r cyfyngiadau hyn.

Ymestyn tâl salwch statudol

16 Ebrill 2020

[Rheoliadau newydd](#) yn dod i rym yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i ymestyn y tâl salwch statudol i'r rheini sy'n fregus iawn, sydd â risg uchel o gael salwch difrifol yn sgil y coronafeirws ac a argymhellir iddynt aros gartref am 12 wythnos.

Cyllid ar gyfer gofal Cymdeithasol

13 Ebrill 2020

Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd Cymru [yn cyhoeddi £40m ychwanegol i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion](#) yn ystod pandemig y coronafeirws. "Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatgan yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i fodloni'r galw ychwanegol sydd ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Byddwn yn adolygu'r dyraniad hwn ac yn sicrhau bod rhagor o arian ar gael efallai os bydd angen yn y dyfodol."

Ehangu ymgynghoriadau fideo

12 Ebrill 2020

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi buddsoddiad pellach i [gyflwyno gwasanaeth ymgynghori fideo](#) i ofal eilaidd a gofal yn y gymuned. "Bydd y system hon yn galluogi gwasanaethau allweddol i gadw cysylltiad gweledol â chleifion, sydd yn arbennig o bwysig yn achos rhai gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl."

Cyllid ar gyfer elusennau

8 Ebrill 2020

[Canghellor y DU](#) yn cyhoeddi cyllid o £750 miliwn ar gyfer y sector elusennau. Caiff cyfran o'r cyllid hwn ei ddyrannu drwy'r fformiwla Barnett i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gofal critigol

5 Ebrill 2020

Y Gweinidog Iechyd yn cyhoeddi [datganiad](#) am gapasiti gofal critigol ac argaeledd peiriannau anadlu yng Nghymru. Dywedodd fod nifer y gwelyau gofal critigol yng Nghymru'n cynyddu'n ddyddiol. Ar 3 Ebrill, mae 353 o welyau gofal critigol neu welyau cymorth anadlu mewnwthiol (mae tua 153 fel arfer). Nododd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i gaffael 1,035 o beiriannau anadlu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a thrwy drefniadau'r DU, a bod disgwyl i Gymru gael cyfran o gaffaeliad y DU yn seiliedig ar ei phoblogaeth.

Cadw pellter cymdeithasol - gweithleoedd ac angladdau

4 Ebrill 2020

Dan [reoliadau diwygiedig i Gymru](#), bydd yn rhaid i fusnesau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rheol cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr yn cael ei dilyn ymhlith pobl ar eu safle. Cyhoeddir canllawiau i egluro'r camau rhesymol y gellir disgwyl i gyflogwyr eu cymryd. Mae'r rheoliadau hefyd yn egluro'r trefniadau ar gyfer angladdau ac amlosgfeydd. Mae'r rheoliadau, sy'n diwygio *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020*, yn dod i rym ar 7 Ebrill 2020.

Cyfarpar diogelu personol

2 Ebrill 2020

Yn dilyn adolygiad brys o gyfarpar diogelu personol ledled y DU, cyhoeddir [canllawiau newydd ar gyfer y DU](#).

Apwyntiadau gyda meddygon teulu dros y we

2 Ebrill 2020

Gwasanaeth fideo-ymgyngoriadau yn cael ei [gyflwyno ym mhob practis meddyg teulu yng Nghymru](#).

Cefnogaeth economaidd ychwanegol

30 Mawrth 2020

Prif Weinidog Cymru [yn cyhoeddi](#) Cronfa Cadernid Economaidd newydd i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i economi, busnesau ac elusennau Cymru.

Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru

29 Mawrth 2020

O ganlyniad i'r [datganiad](#) galluogir Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt yn Rhan 4 o Atodlen 22 i Ddeddf Coronafeirws 2020, sy'n ymwneud â gwahardd neu gyfyngu ar ddigwyddiadau neu gynulliadau ac â chau mangre neu osod cyfyngiadau ar bobl sy'n dod i mewn neu'n aros y tu mewn i fangre.

Tâl salwch statudol o'r diwrnod cyntaf

28 Mawrth 2020

[Rheoliadau](#) newydd yn dod i rym yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sy'n caniatáu i dâl salwch statudol gael ei dalu o ddiwrnod cyntaf absenoldeb gweithiwr oherwydd y coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd bod ganddynt symptomau coronafeirws a'r rhai sydd yn aelwyd rhywun sydd â'r symptomau.

Profion newydd

28 Mawrth 2020

Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd, [yn cyhoeddi](#) cynllun profi coronafeirws newydd ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno prawf gwrthgyrff newydd (sy'n cael ei brofi yn y DU yn ystod yr wythnos sydd i ddod) a fydd yn nodi a yw pobl wedi cael y feirws yn ddiweddar ac a oes ganddynt imiwnedd.

Stadiwm Principality i ddod yn ysbyty maes

27 Mawrth 2020

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro [yn cyhoeddi](#) y bydd Stadiwm Principality yng Nghaerdydd yn dod yn ysbyty dros dro i ddarparu 2,000 o

welyau ychwanegol i'r GIG. Cefnogir hyn gan £8 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu capasiti gwelyau ychwanegol mewn rhannau eraill o Gymru. Daeth rheoliadau newydd i rym ar 30 Mawrth 2020 sy'n caniatáu i awdurdod lleol ymgymryd â datblygiad ar ei dir mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws heb iddo orfod cael caniatâd cynllunio. O ganlyniad, gallai awdurdodau lleol ddefnyddio canolfannau hamdden fel ysbytai dros dro, er enghraifft.

Rhoddodd y Gweinidog Iechyd [fanylion pellach am ysbytai maes yng Nghymru](#) mewn datganiad ysgrifenedig ar 5 Ebrill 2020.

Cau llwybrau a thir cyhoeddus

27 Mawrth 2020

Gan ddefnyddio'r pwerau newydd i orfodi mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae nifer o [llwybrau a thir cyhoeddus yng Nghymru ar gau](#), gan gynnwys yr Wyddfa, Pen y Fan a rhannau o arfordir Sir Benfro.

Gofal a chymorth awdurdodau lleol

26 Mawrth 2020

Gwneud [rheoliadau newydd](#) yng Nghymru i ddod â darpariaethau o Ddeddf y Coronafeirws 2020 i rym ac i lacio rhai o ddyletswyddau awdurdodau lleol o ran asesu a bodloni [anghenion am ofal a chymorth](#). Bellach, nid oes ond angen i awdurdodau lleol fodloni gofynion yr achosion mwyaf difrifol lle bo rhywun yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Cario gwyliau blynyddol ymlaen

26 Mawrth 2020

[Rheoliadau](#) newydd yn dod i rym ar draws Prydain Fawr yn caniatáu i weithwyr, nad yw'n rhesymol iddynt gymryd gwyliau blynyddol oherwydd y coronafeirws, gario eu gwyliau drosodd i'r ddwy flwyddyn wyliau nesaf.

Cymorth i'r hunangyflogedig

26 Mawrth 2020

Canghellor y Trysorlys yn amlinellu [cynllun cymhorthdal incwm newydd y DU i bobl hunangyflogedig](#) y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt yn andwyol.

Pwerau'r heddlu

26 Mawrth 2020

Mae rheoliadau newydd yn dod i rym sy'n rhoi pŵer i'r heddlu orfodi cadw pellter cymdeithasol yng [Nghymru](#) a [Lloegr](#). Gellir cyfeirio pobl nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau i ddychwelyd adref (neu gael eu symud o ble bynnag y maent a'u hanfon adref) a gallent gael hysbysiad cosb benodedig.

Deddf Coronafeirws 2020

25 Mawrth 2020

Yn dilyn cydsyniad gan ddau Dŷ'r Senedd, mae [Bil Coronafeirws](#) wedi cael Cydsyniad Brenhinol.

Cydsyniad Deddfwriaethol

24 Mawrth 2020

Mae'r Cynulliad wedi [cytuno](#) ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Coronafeirws. Pan fydd Senedd y DU am ddeddfu ar rywbeth a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl confensiwn, mae angen iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn pasio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Rhoddir y cydsyniad hwn drwy Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.

Gwarchod y rhai sydd fwyaf agored i niwed

24 Mawrth 2020

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ganllawiau ar gyfer pobl a nodir fel y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgîl y coronafeirws](#). Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am ddarparu meddyginiaeth a bwyd, yn ogystal â chyfarwyddiadau i rywun sy'n byw gyda phobl sy'n fwyaf agored i niwed.

Anerchiad y Prif Weinidog

23 Mawrth 2020

Prif Weinidog y DU yn [annerch y genedl](#) - mae'n ofynnol i bawb aros gartref bellach ac eithrio ar gyfer dibenion cyfyngedig iawn. Bydd siopau a mannau

cymunedol nad ydynt yn hanfodol yn cau, a gwaherddir i fwy na dau berson ymgynnull yn gyhoeddus. Mae'r mesurau hyn yn cael eu gorfodi gan yr heddlu ac awdurdodau perthnasol eraill. Prif Weinidog Cymru yn gwneud [datganiad ar y mesurau newydd](#).

Atal twristiaid

23 Mawrth 2020

Llywodraeth Cymru yn [cyhoeddi](#) y bydd meysydd carafannau, meysydd gwerysyla a chyrchfannau poblogaidd i dwristiaid ar gau i ymwelwyr "o heddiw ymlaen". Daeth rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gau parciau gwyliau, parciau gwerysyla, arcêds difyrion a chanolfannau chwarae dan do yng Nghymru i rym ar 24 Mawrth 2020. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer cau tir a llwybrau cerdded penodol. Daeth y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i gymryd lle'r rheoliadau hyn yn ddiweddarach, sef ar 26 Mawrth 2020.

Teithio yng Nghymru

22 Mawrth 2020

Mae'r [Prif Weinidog yn dweud](#) bod cadw pellter cymdeithasol "yn cynnwys osgoi pob taith heblaw am rai hanfodol ac os na fydd pobl yn dilyn y cyngor yma ni fydd gennym unrhyw ddewis ond defnyddio pwerau i'w orfodi".

Rhai busnesau yn cael eu gorfodi i gau

20 Mawrth 2020

[Cyhoeddodd y Prif Weinidog](#) fod y Llywodraeth "yn dweud wrth gaffis, tafarndai, bariau, bwytai i gau heno" yn ogystal â "chlybiau nos, theatrau, sinemâu, campfeydd a chanolfannau hamdden". Daeth Rheoliadau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau a oedd yn gwerthu bwyd neu ddiod i'w bwyta ar y safle i gau i rym [yng Nghymru](#) a [Lloegr](#) y diwrnod canlynol. Daeth y [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Cymru\) 2020](#) i gymryd lle'r rheoliadau hyn yn ddiweddarach, sef ar 26 Mawrth 2020.

Cynllun cadw swyddi coronafeirws

20 Mawrth 2020

Mae'r [Canghellor yn cyhoeddi](#) bod Cynllun Cadw Swydd Coronafeirws yn cael ei greu fel y gall unrhyw gyflogwyr yn y DU gysylltu â Chyllid a Thollau EM am grant i dalu 80 y cant o gyflogau gweithwyr y parheir i'w cyflogi. Bydd y Cynllun yn talu costau cyflogau wedi'u hól-ddyddio i 1 Mawrth 2020; fe'i sefydlwyd i dalu am o leiaf tri mis i ddechrau.

Cyflwyno Bil brys

19 Mawrth 2020

Cyflwyno [Bil Coronafeirws 2019-21](#) yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn ôl y [Memorandwm Esboniadol](#), mae'r Bil yn sicrhau bod yr asiantaethau a'r gwasanaethau dan sylw, sef ysgolion, ysbytai, yr heddlu ac ati, â'r cyfarpar a'r pwerau sydd eu hangen arnynt. Mae gan y pedair gwlad yn y DU ei chyfres ei hun o gyfreithiau, ac felly mae'r cyfarpar a'r pwerau hyn yn amrywio ym mhob ardal i raddau. Dywedir mai'r ffordd orau i sicrhau canlyniadau cyson fydd gwneud y gyfres o gyfarpar a phwerau yn gyson ar draws y DU. Mae [crynoded](#) Ymchwil y Senedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Bil a'i oblygiadau i Gymru.

Pwyllgor yn holi Gweinidog ynghylch cau ysgolion

19 Mawrth 2020

Mae'r Gweinidog Addysg yn ymddangos gerbron y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) i drafod effaith COVID-19 ar addysg, gan gynnwys canslo arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn.

Ysgolion yng Nghymru yn cau

18 Mawrth 2020

Y Gweinidog Addysg, [Kirsty Williams, yn cyhoeddi](#) y bydd yn cyflwyno toriad y Pasg yn gynharach ac y bydd ysgolion ledled Cymru "yn cau am ddarpariaeth addysg statudol" erbyn 20 Mawrth 2020. Ond mae ysgolion yn agored ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol na ellir gofalu amdanynt gartref.

Rheoliadau diogelu iechyd Cymru

18 Mawrth 2020

[Daw rheoliadau i rym](#) sy'n darparu ar gyfer "gosod cyfyngiadau cymesur" ar unigolion lle yr amheuir y gallent fod â choronafeirws. Gwnaed [Rheoliadau](#)

tebyg yn Lloegr fis Chwefror. Daeth y Ddeddf Coronafeirws 2020, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2020, i gymryd lle'r rheoliadau hyn.

Llywodraeth Cymru yn briffio'r Pwyllgor Iechyd

18 Mawrth 2020

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio technegol gan y Prif Swyddog Meddygol ar yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru, a gan y Gweinidog Iechyd ar y ddeddfwriaeth frys.

Cynigion Deddfwriaethol

17 Mawrth 2020

Llywodraeth y DU yn cyhoeddi manylion o'r mesurau arfaethedig i'w cynnwys yn y ddeddfwriaeth frys ar goronafeirws.

Cymorth i fusnesau

17 Mawrth 2020

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, gymorth i fusnesau bach yng Nghymru. Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £51,000 neu lai yn cael gostyngiad o 100% mewn ardrethi busnes, a bydd tafarndai sydd â gwerth ardrethol rhwng £51,000 a £100,000 yn cael gostyngiad o £5,000.

Diwygio busnes y Cynulliad

17 Mawrth 2020

Bydd busnes y Cynulliad yn blaenoriaethu COVID-19 ac mae holl fusnes nad yw'n frys wedi'i atal. Adeilad y Senedd ar gau i ymwelwyr.

Cyngor wedi'i ddiweddarau a phellter Cymdeithasol

16 Mawrth 2020

Gwnaeth y Prif Weinidog, Boris Johnson, ddiweddarau'r cyngor os oes gan unrhyw un yn y cartref beswch parhaus neu dymheredd uchel, dylai pawb yn y cartref hunanynysu am 14 diwrnod.

Dywedodd y Prif Weinidog hefyd y dylai holl gyswllt nad yw'n hanfodol a theithio diangen ddod i ben, a dylai pobl ddechrau gweithio gartref lle bo hynny'n bosibl. Mae'r pellter cymdeithasol hwn yn arbennig o bwysig i bobl sy'n hŷn na 70 mlwydd oed, menywod beichiog a phobl sydd â rhai cyflyrau meddygol, ac ychwanegodd y bydd yn ofynnol mynd ymhellach a sicrhau bod y rhai sydd â'r cyflyrau meddygol mwyaf difrifol yn cael eu gwarchod i raddau helaeth rhag cael cyswllt cymdeithasol am oddeutu 12 wythnos. Dywedodd Llywodraeth y DU na fyddant bellach yn cefnogi cynulliadau torfol gyda gweithwyr brys.

Cohirio apwyntiadau GIG nad ydynt yn rhai brys

13 Mawrth 2020

Mae Vaughan Gething yn cyhoeddi atal nifer o wasanaethau'r GIG, gan gynnwys gohirio apwyntiadau cleifion allanol nad ydynt yn rhai brys a gohirio derbyniadau a gweithdrefnau llawfeddygol nad ydynt yn rhai brys. Dywed y Gweinidog y bydd "y camau hyn yn caniatáu i wasanaethau a gwelyau gael eu hailddyrranu ac i staff gael eu hadleoli a'u hailhyfforddi mewn meysydd blaenoriaeth".

Rheoliadau tâl salwch statudol

13 Mawrth 2020

Mae rheoliadau newydd yn dod i rym yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ar gyfer pobl sy'n hunanynysu yn unol â chanllawiau sy'n ymwneud â COVID-19, sef y bernir na allant weithio a bod ganddynt hawl i dâl salwch statudol.

Cam oedi

12 Mawrth 2020

Mae'r DU yn symud i'r cam oedi, ac mae Prif Swyddogion Meddygol y DU wedi codi lefel y risg i'r DU o 'gymedrol' i 'uchel'. Cyhoeddir cyngor newydd sy'n dweud y dylid hunanynysu am saith diwrnod os ydych chi'n datblygu tymheredd uchel neu beswch parhaus newydd. Nid oes angen gweld meddyg teulu na mynd i'r fferyllfa na'r ysbyty. Argymhellir ffonio 111 dim ond os nad yw'r symptomau'n gwella ar ôl saith diwrnod neu os yw'ch cyflwr yn gwaethygu.

Ymgynghoriadau iechyd fideo

12 Mawrth 2020

Mae Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyhoeddi y bydd gwasanaeth ar y we yn caniatáu i bobl sy'n hunanynysu ddefnyddio fideo i siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y GIG a chael cyngor ganddynt.

Pandemig

11 Mawrth 2020

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio COVID-19 fel pandemig, ond mae'n pwysleisio nad yw hyn yw'n newid asesiad Sefydliad Iechyd y Byd o'r bygythiad sy'n deillio o'r coronafeirws. "It doesn't change what WHO is doing, and it doesn't change what countries should do". (Mae'r term 'pandemig' yn cyfeirio at ledaeniad clefyd heintus newydd ar draws sawl gwlad, yn hytrach na'i ddifrifoldeb neu nifer yr achosion/marwolaethau).

Cyllideb 2020

11 Mawrth 2020

Mae Canghellor y DU yn cyhoeddi pecyn o fesurau gwerth £12 biliwn i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, unigolion a busnesau y mae COVID-19 yn effeithio arnynt. Mae'n cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau, newidiadau i dâl salwch statudol, a chynnydd dros dro yn y gostyngiad ardrethi busnes ar gyfer manwerthwyr (yn Lloegr yn unig). Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyhoeddiad, ond mae am gael eglurder pellach ynghylch sut y bydd y mesurau yn cael eu hariannu'n llawn. "Rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n cael y cyllid y mae arni ei hangen i ddelio â'r effaith, yn enwedig o ystyried y pwysau a allai ddod i'r amlwg oherwydd ein patrwm demograffig".

'COBRA Cymru'

10 Mawrth 2020

Mae'r Prif Weinidog yn cadarnhau bod grŵp gweinidogol craidd wedi cael ei sefydlu a'i fod yn cyfarfod yn wythnosol, "i wneud yn siŵr ein bod ni mewn sefyllfa i ymateb ar frys ac ar unwaith pan fo angen ymateb o'r fath". Hefyd, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn tynnu sylw at y ffaith bod Prif Weithredwr GIG Cymru yn sefydlu 'tîm cynllunio ac ymateb o blith GIG Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol', a fydd yn "rhoi cymorth

parhaus, yn cydgysylltu ac yn integreiddio'r ymateb o ran y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol".

Cam cyfyngu

9 Mawrth 2020

Mae Prif Weinidog y DU yn cadeirio cyfarfod COBRA brys, gyda Phrif Weinidog Cymru, Prif Weinidog yr Alban a Phrif Weinidog Gogledd Iwerddon yn bresennol. Mae Prif Weinidog y DU yn cyhoeddi bod y DU yn aros yng ngham cyntaf yr achosion, sef 'cyfyngu', ond bod paratodau helaeth yn cael eu gwneud ar gyfer mynd i'r cam 'oedi'.

Deddfwriaeth frys

8 Mawrth 2020

Mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau y bydd Bil COVID-19 Brys ar ddod, fel rhan o ymateb fesul cam y DU i'r feirws. Mae'r ddeddfwriaeth, a fydd yn gymwys i bedair gwlad y DU, yn darparu pwerau brys i Gymru ymateb i'r achosion yn sydyn ac effeithiol.

Clefyd hysbysadwy

5 Mawrth 2020

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael eu gwneud, gan wneud COVID-19 yn glefyd hysbysadwy yng Nghymru. Caiff rheoliadau cyfatebol i Loegr eu gwneud ar yr un dydd. Yr Alban oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud COVID-19 yn glefyd hysbysadwy (o 22 Chwefror 2020), ac yna Gogledd Iwerddon (29 Chwefror 2020).

Briffio'r Pwyllgor Iechyd

4 Mawrth 2020

Cynhelir cyfarfod arbennig o Gabinet Cymru. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cael briff technegol gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIC Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, ac arweinydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynllun gweithredu y DU

3 Mawrth 2020

Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chynllun gweithredu: [Coronavirus action plan: a guide to what you can expect](#). Mae'r cynllun gweithredu ar y cyd hwn rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn nodi ymateb fesul cam i'r feirws. Mae hyn yn cynnwys y 'cam cyfyngu', y 'cam oedi', 'cam ymchwilio' hyd at y 'cam lliniaru'. Nodwyd yn y cynllun gweithredu y byddai'r llywodraeth yn ystyried opsiynau deddfwriaethol, pe bai angen, i helpu systemau a gwasanaethau weithio'n fwy effeithiol i drechu'r achosion o'r feirws, ac y byddai'n sicrhau bod unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl.

Yr achos cyntaf yng Nghymru

28 Chwefror 2020

[Cadarnheir](#) achos cyntaf Cymru o'r coronafeirws. Roedd y claf wedi teithio yn ôl i Gymru o ogledd yr Eidal.

Rheoliadau diogelu iechyd

10 Chwefror 2020

Mae [rheoliadau](#) yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr o dan *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984*, sy'n rhoi pwerau i weithwyr iechyd proffesiynol gadw unigolion ar wahân lle y credir bod risg resymol y gall y feirws fod ar unigolyn. Mewn ymateb, [dywedodd](#) Gweinidog Iechyd Cymru ei fod yn ystyried a oedd angen deddfwriaeth debyg yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Cymru o dan *Ddeddf 1984*.

Dim ffioedd GIG ar gyfer ymwelwyr tramor

4 Chwefror 2020

Gosodir [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Ffioedd Ymwelwyr Tramor\) \(Diwygio\) \(Cymru\) 2020](#). Mae'r rhain yn esemptio ymwelwyr tramor rhag gorfod talu am ddiagnosis ac am driniaeth ar gyfer COVID-19 yng Nghymru. Mae [rheoliadau](#) cyfatebol hefyd mewn grym yn Lloegr (o 29 Ionawr 2020). Daeth y *Ddeddf Coronafeirws 2020*, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2020, i gymryd lle'r rheoliadau hyn.

Golchwch eich dwylo

1 Chwefror 2020

Ar 1 Chwefror, mae Llywodraeth y DU yn lansio ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus i gynghori ar sut i arafu lledaeniad COVID-19, sy'n debyg i'r ymgyrch 'Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa'. Mae'r ymgyrch yn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r ymgyrch.

Lefel y risg yn y DU

31 Ionawr 2020

Cadarnheir achosion cyntaf o'r coronafeirws yn y DU. Mae Prif Swyddogion Meddygol y DU yn cynghori codi lefel yn risg yn y DU o isel i gymedrol. Fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir nad yw hyn yn golygu y credir bod y risg i unigolion yn y Deyrnas Unedig wedi newid, ond dylai llywodraethau gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd.

Argyfwng iechyd cyhoeddus

30 Ionawr 2020

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cyhoeddi bod COVID-19 wedi cwrdd â'r meini prawf ar gofer bod yn Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol (PHEIC).

Gwelir y coronafeirws gyntaf yn Tsieina

31 Rhagfyr 2019

Adroddir nifer o achosion o niwmonia yn Wuhan, Tsieina; yn ddiweddarach, fe nodir eu bod yn straen newydd o'r coronafeirws nas gwelwyd mewn pobl o'r blaen: y coronafeirws newydd (y cyfeirir ato fel COVID-19 o 11 Chwefror).